**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd Dydd Llun, 23 Medi 2019 am 5.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypandy CF40 2XX.

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Aelodau oedd yn bresennol:-:-**

Y Cynghorydd M Adams (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S Evans | Y Cynghorydd P Jarman |
| Y Cynghorydd H Boggis | Y Cynghorydd D Macey |
| Y Cynghorydd L Walker | Y Cynghorydd G Caple |
| Y Cynghorydd S Morgans | Y Cynghorydd W Jones |

**Aelodau cyfetholedig a oedd yn bresennol**

**Swyddogion oedd yn bresennol**

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol**

Y Cynghorydd G Thomas

**16 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**17 Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J Bonetto, J Brencher, M Griffiths, J Harries ac E Stephens

**18 Cynllun Corfforaethol 2020-2024**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod arbennig y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a oedd wedi'i drefnu er mwyn rhoi'r cyfle i Aelodau'r Pwyllgor ymgymryd â gwaith cyn craffu ar Gynllun Corfforaethol drafft y Cyngor 2020-2024 ac argymell ffordd ymlaen a llywio'r adborth i'r Cabinet.

Atgoffodd y Prif Weithredwr y Pwyllgor Craffu fod y Cyngor wedi cymeradwyo ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2016-2020 ym mis Chwefror 2016 yn dilyn cyfnod o ymgynghori ynglŷn â'r weledigaeth, y pwrpas a'r tair blaenoriaeth ar y pryd, yr Economi, Pobl a Lle. Roedd y Cynllun Corfforaethol wedi llwyddo i lywio'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio ac mae wedi gwneud cynnydd mewn perthynas â materion lleihau fel gofod swyddfa'r Cyngor a buddsoddiad mawr i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

O ran Cynllun Corfforaethol drafft y Cyngor 2020-2024, gofynnwyd i aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ystyried a oedd yn nodi gweledigaeth a phwrpas clir ar gyfer y Cyngor ac a oedd y blaenoriaethau, Pobl, Lleoedd a Ffyniant, yn briodol. Atgoffwyd yr aelodau bod y flaenoriaeth 'Ffyniant' wedi disodli'r flaenoriaeth flaenorol,'Economi', i adlewyrchu'n well faterion sy'n ymwneud â chanol ein trefi a'r ffordd y mae preswylwyr yn cynnal eu gwaith a'u busnes a sut maen nhw'n cymdeithasu.

Cyfeiriodd Aelod at weledigaeth y Cyngor ac awgrymodd y canlynol: - "Bod y lle gorau yng ***Nghymru*** i fyw, gweithio a chwarae…" nid De Cymru yn unig, i adlewyrchu'n well mai'r Cyngor hwn yw'r gorau yng Nghymru.

Cyfeiriodd Aelod arall at y weledigaeth ar gyfer ein cymunedau yn y cynllun a chyfeiriodd at ddata Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/17 a roddodd RCT yn y 19eg safle allan o 22 Awdurdod Lleol, islaw'r cyfartaledd Cenedlaethol gan nad yw trigolion yn teimlo eu bod yn cyfranogi o'u cymunedau. Mewn ymateb, cytunodd y Prif Weithredwr y byddai cynnal arolwg cyhoeddus gan y Cyngor ei hun yn ffordd o weld gwir adlewyrchiad o farn y cyhoedd ar wasanaethau'r Cyngor, ymgysylltu â'r gymuned ac ofn trosedd gan fod modd i rai arolygon sampl fod yn isel a darparu darlun camarweiniol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu fod adroddiad i'r Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad nesaf yn nodi dull y Cyngor o ymgysylltu ac ymgynghori â thrigolion yn enwedig o ran newidiadau i wasanaethau, ymgynghori ar y gyllideb ac ymgysylltu â'r cynllun corfforaethol.

Atgoffodd yr aelod cyfetholedig a oedd yn bresennol y pwyllgor o bwysigrwydd ymgysylltu â phobl ifainc ac er bod y Cynllun Corfforaethol yn gadarn ac yn llawn dyheadau, roedd yn teimlo nad oedd yn apelio at bobl ifainc. Ar y cam yma, cadarnhawyd mai dim ond ceisio adborth gan Aelodau oedd y bwriad, ond byddai cyfle i ymgynghori â'r gymuned ehangach ar sawl ffurf gan gynnwys ar-lein, sioeau teithiol hygyrch ac achlysuron ymgysylltu penodol ar gyfer pobl ifainc a phobl hŷn.

Awgrymodd Aelod mai thema allweddol i bobl ifainc, a rhywbeth sy'n peri pryder iddyn nhw, yw newid yn yr hinsawdd ac efallai fyddai cynnwys y pwnc yma yn ennyn eu diddordeb. Tynnwyd sylw at y ffaith bod nifer o gamau gweithredu eisoes ar waith i fynd i'r afael â'r mater hwn o dan y flaenoriaeth Ffyniant.

**Pobl: annibynnol, iach a llwyddiannus**

Esboniodd y Prif Weithredwr fod pob blaenoriaeth yn cynnwys nifer o amcanion a nifer o gamau gweithredu yn rhan o bob amcan. Roedd gofyn i'r Pwyllgor Craffu lunio barn ynglŷn â pherthnasedd yr amcanion a pha mor briodol oeddent, a gwahoddodd y Pwyllgor i awgrymu meysydd eraill i'w cynnwys lle y bo'n briodol.

Trafododd yr aelodau tlodi plant a'r pryder ynglŷn â'r niferoedd sy'n byw mewn tlodi. Nodwyd bod hwn yn bwnc y dylid cyfeirio ato yn y Cynllun Corfforaethol. Roedden nhw'n cydnabod nad oedd o reidrwydd yn ymwneud â thlodi ariannol ond ei fod yn ymwneud ag addysg wael ac amddifadedd cymdeithasol. Nododd y Prif Weithredwr fod addysg yn allweddol i alluogi teuluoedd i oresgyn tlodi. Er gwaethaf y pryderon a godwyd ynglŷn â cholli cyswllt â theuluoedd ar lefel leol oherwydd canoli gwasanaethau, pwysleisiodd Cyfarwyddwr Cyfadran y

Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant fod ystod eang o wasanaethau ar gael sydd bellach yn fwy effeithiol, fel y fenter 'Teuluoedd Cydnerth' sy'n adnabod y teuluoedd (estynedig) hynny sydd angen cymorth.

Cytunwyd y byddai hyrwyddo materion diogelu yn cael ei dargedu'n ehangach trwy nifer o ffynonellau megis gwefan y Cyngor.

Roedd ymholiad mewn perthynas â'r cyfleoedd cynyddol i weithio mewn partneriaeth ac a oes gan yr awdurdod lleol y cydbwysedd iawn, neu a oes gormod o ddibyniaeth ar bartneriaid ar hyn o bryd. Cafodd yr aelodau eu hatgoffa bod yr awdurdod lleol yn ddiweddar wedi dwyn Bwrdd Iechyd Cwm Taf i gyfrif gyda chais bod camau pellach yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Cyngor Llawn, gan ddangos ei arweinyddiaeth.

Cyfeiriwyd at yr arolwg cynharach a nododd fod 52.9% o drigolion RhCT o'r farn bod Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yn darparu gwasanaeth effeithiol, sy'n peri'r cwestiwn a yw'r arolygon yn adlewyrchu gwir farn y cyhoedd ac a yw gwasanaethau'n llwyddiannus? Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant fod adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnig tystiolaeth sy'n gosod RhCT yn agosach at y chwartel uchaf mewn sawl maes. Rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor Craffu mai gweledigaeth y Cyngor yw i bob plentyn yn y Fwrdeistref Sirol gyflawni hyd eithaf ei allu a bod yr awdurdod lleol yn dyheu am weld pawb yn llwyddo. Ychwanegodd y Prif Weithredwr, fel y gwelir yn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cynllun Adborth Cwsmeriaid - Adroddiad blynyddol Rhoi Sylwadau, Canmol a Chwyno, fod llai o gwynion yn cael eu cyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (PSOW) a datryswyd y rhai a atgyfeiriwyd yn llwyddiannus gan y maes gwasanaeth perthnasol.

**Lleoedd: creu cymdogaethau mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw**

Dywedodd yr aelodau fod RhCT ymhell ar y blaen i awdurdodau lleol eraill o ran torri gwair a chynnal a chadw ei fannau gwyrdd a'i wasanaethau glanhau'r strydoedd. Adroddodd Cyfarwyddwr y Gyfadran – Ffyniant, Datblygu a Gwasanaethau Rheng Flaen am nifer o feysydd o dan y flaenoriaeth 'Lleoedd' sy'n cyflawni'n dda, e.e. roedd gostyngiad yn nifer yr hawliadau yswiriant oherwydd y gwaith parhaus i wella cyflwr y ffyrdd ledled y Fwrdeistref Sirol. Ychwanegodd fod y Cyngor, trwy nifer o fentrau, yn ceisio cyflawni ei darged i ailgylchu 70% o ddeunyddiau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae lefelau baeddu cŵn a thipio anghyfreithlon wedi gostwng oherwydd pwerau gorfodi. Tynnodd yr aelodau sylw at barcio anghyfreithlon fel maes i'w gynnwys yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor gan ddefnyddio cerbyd gorfodi parcio â chamerâu symudol y Cyngor i gael delweddau clir o gerbydau sy'n parcio'n anghyfreithlon y tu allan i'n hysgolion, mewn arosfannau bysiau ac ar groesfannau cerddwyr.

Canmolodd yr aelodau y broses ailgylchu yn RhCT a oedd yn cael ei hystyried yn 'wasanaeth o'r radd flaenaf' yn enwedig y gwasanaeth ailgylchu cewynnau sydd bellach â dros 11,000 o breswylwyr yn cymryd rhan ond roedd yr Aelodau'n awyddus i'r cynlluniau sy'n gweithio'n dda gael eu hyrwyddo ymhellach.

Cytunwyd y dylid cynnwys adran ar gymunedau diogel yn y Cynllun Corfforaethol a fyddai'n dangos sut mae'r Cyngor yn sicrhau bod RhCT yn un o'r

lleoedd mwyaf diogel yng Nghymru i fyw a sut mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni hyn.

**Ffyniant: creu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuraidd ac i gyflawni eu potensial a ffynnu**

Cytunodd y Pwyllgor Craffu mai'r hyn sy'n allweddol i drigolion RhCT er mwyn ffynnu yw darparu tai o safon uchel a rhoi cymorth i bobl ddod o hyd i waith. Fel prif gyflogwr, gofynnodd yr Aelodau sut mae'r Cyngor yn bwriadu darparu cyflogaeth â chyflog gwell. Cadarnhawyd bod y Cyngor eisoes yn cefnogi rhieni sy'n gweithio i ddod yn ôl i'r gwaith a'i fod yn cyflwyno cynlluniau graddedigion a phrentisiaethau rhagorol. Mae busnesau'n cael eu hannog i agor yng nghanol trefi fel datblygiad Dyffryn Taf ym Mhontypridd a fydd yn cynyddu nifer yr ymwelwyr â'r ardal a gwariant lleol. Yn unol â hyrwyddo canol trefi, adroddwyd y byddai'r staff o Dŷ Bronwydd yn cael eu symud i ganol tref y Porth er mwyn helpu'r dref i ffynnu tra byddai'r adeilad yn cael ei drawsnewid yn gyfleuster Gofal Ychwanegol i drigolion y Fwrdeistref Sirol sydd angen cymorth ychwanegol.

Cafodd yr aelodau wybod bod cwmnïau lleol bellach yn rhyng-gysylltu ac yn marchnata â'i gilydd, gan greu rhwydwaith lleol, trwy'r Fargen Ddinesig. (Rhoddwyd enghraifft o gwmnïau'n creu cymhorthion/dyfeisiau meddygol.)

Awgrymodd Aelod fod y Cynllun Corfforaethol yn cydnabod sut mae'r Cyngor yn bwriadu cefnogi'r rhai sy'n cyflawni canlyniadau addysgol i'n disgyblion a chodi cyflawniad.

Cytunodd yr aelodau fod angen gwella'r ffordd rydyn ni'n hyrwyddo ein cyrchfannau i dwristiaid a'n mannau gwyrdd trwy ddosbarthu pamffledi twristiaeth RhCT yn fwy eang a gwella'r arwyddion i'n parciau. Dywedodd y Cadeirydd hefyd y dylai pobl leol gael eu cyflogi yn ein safleoedd treftadaeth pwysig.

I gloi, gofynnwyd i'r Pwyllgor Craffu roi ystyriaeth bellach i'r dull o gyflawni'r blaenoriaethau a materion penodol fel newid yn yr hinsawdd ac a yw'r saith nod llesiant cenedlaethol o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi cael sylw priodol.

Codwyd pryder mewn perthynas â lleihau corsydd mawn i ddarparu ar gyfer y tyrbinau gwynt a'r ofn bod RhCT yn ardal bwysig o ran datblygu ynni gwynt yn y dyfodol. Gofynnodd yr Aelod ai mater i RCT oedd herio Arolygiaeth Gynllunio Cymru mewn rhai achosion er mwyn amddiffyn ei chynefinoedd naturiol presennol a sicrhau balans. Awgrymwyd efallai mai dylanwad 10 awdurdod lleol y Fargen Ddinesig fyddai'r ffordd orau ymlaen wrth fynd i'r afael â'r mater hwn.

Mewn ymateb i ymholiad mewn perthynas â'r Gwaith 'Phurnacite' yn Aberaman, awgrymwyd y byddai trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru / y Datblygwyr yn digwydd dros yr ychydig flynyddoedd nesaf i annog datblygiadau tai mawr ar y safle.

Yn dilyn trafodaethau helaeth **PENDERFYNWYD** cymeradwyo drafft terfynol, ymgorffori'r sylwadau a'r pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i'w cynnwys yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor 2020-2024, i'w ystyried yn y dyfodol gan y Cabinet, cyn ymgysylltu'n eang â'r cyhoedd, staff a rhanddeiliaid.

**19 Materion Brys**

**20 EITEM BRYS - RHYBUDD O GYNNIG**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yr adroddiad brys yn cynnig trefniadau er mwyn i'r Pwyllgor Craffu symud y Rhybudd o Gynnig (fel y'i diwygiwyd) mewn perthynas â datblygu rheilffyrdd a metro yn y Sir yn y dyfodol yn ei flaen, fel y cefnogwyd gan y Cyngor Llawn ar 18 Medi 2019.

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried sefydlu Gweithgor i ddelio â'r mater a gyfeiriwyd at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Awgrymwyd y dylid gwahodd cynigydd ac eiliwr y cynnig i bob cyfarfod a bod cylch gorchwyl ac amserlen cyfarfodydd yn y dyfodol yn cael eu sefydlu yn y cyfarfod cychwynnol.

Nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad, fod y buddsoddiadau ymrwymiad yn fanteisiol i RCT gan fod modd i'r awdurdod lleol wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i ychwanegu gwerth at y buddsoddiad cyfredol ac y gallai hynny gynnwys seilwaith a gwasanaethau rheilffordd newydd neu estynedig, trenau, tramiau, bysiau cyflym a theithio llesol ar adeg dyngedfennol pan fydd y Cabinet a'r Cyngor yn adolygu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) y Cyngor.

Cadarnhawyd y byddai'r Cynghorydd D Macey yn dod i'r Gweithgor Craffu fel yr Aelod Plaid Cymru sylweddol gyda'r Cynghorwyr K Morgan a G R Davies yn dod yn ôl yr angen.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau ystyried y ffordd orau o dderbyn barn aelodau sydd ddim yn rhan o'r pwyllgor mewn perthynas â'r mater, p'un ai trwy gyflwyniad llafar neu gyflwyniad ysgrifenedig. Cytunwyd y byddai aelodau sydd ddim yn rhan o'r pwyllgor yn cael eu gwahodd i gyflwyno eu barn yn bersonol gan roi cyfle i'r holl Aelodau gyfrannu at y mater hwn ledled y Sir.

**PENDERFYNWYD** sefydlu Gweithgor Craffu i ddelio â'r mater ac i dderbyn enwebiadau gan aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i'w cyflwyno i'r Prif Swyddog Craffu. Ymhellach, mae gwahoddiad i aelodau sydd ddim yn rhan o'r pwyllgor gyflwyno eu sylwadau i gyfarfod o'r Gweithgor yn y dyfodol.

**Daeth y cyfarfod i ben am Time Not Specified**

**Y Cynghorydd M. Adams**
**Cadeirydd.**